**Y Cynulliad yn gwahodd pobl i ddathlu cerrig milltir yn hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol, mewn cydweithrediad â’i bartneriaid, wedi datblygu llinell amser i ddathlu Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol.

Mae’r llinell amser yn olrhain hanes pobl a digwyddiadau sy’n cynrychioli cerrig milltir yn hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol o enedigaeth Sappho, y bardd lesbiaidd, i derfysgoedd Stonewall, diddymu Adran 28, Deddf Cydnabod Rhyw a phartneriaethau sifil.

Mae croeso i bobl ddod i’r Senedd rhwng 11 a 18 Chwefror i ychwanegu eu cerrig milltir arbennig eu hunain. Gallant gyfeirio at y flwyddyn y gwnaethant gyfarfod â’u partner, y tro cyntaf iddynt fynd i far hoywon neu i ddigwyddiad Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, y tro cyntaf iddynt gydnabod eu gwir hunaniaeth o ran rhywedd neu ddyddiad eu partneriaeth sifil. Ar ôl bod yn y Senedd, bydd y llinell amser yn symud i leoliadau eraill o amgylch Caerdydd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cadarnhaol lle mae urddas, amrywiaeth a pharch yn ganolog i’n gwerthoedd. Mae Stonewall wedi’n cynnwys ymhlith y 100 cyflogwr gorau yn y DU,  mae gennym Rwydwaith Staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol bywiog ac rydym yn ymwneud â Phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol ar hyd a lled Cymru. Gobeithio y bydd y llinell amser deithiol hon, sy’n cynnwys profiadau personol llawer o unigolion o gyrff sy’n gweithio mewn partneriaeth â ni, ac a restrir isod, yn ogystal â digwyddiadau hanesyddol arwyddocaol, yn annog pawb sy’n ymweld â’r Cynulliad i ymuno yn nathliadau Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol gan hyrwyddo cysylltiadau da a dealltwriaeth o’u hanes.

Stonewall
TOP 100
EMPLOYERS
2010
100 CYFLOGWR
GORAU

Nodiadau:

Mae'r Cynulliad wedi gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd, Cyngor Caerdydd, cangen Cyngor Caerdydd o Unsain, Stonewall Cymru ac UWIC i ddatblygu'r llinell amser.

Bydd y llinell amser yn teithio o amgylch lleoliadau'n partneriaid yn ystod mis Chwefror:

- 4-11 Chwefror yn adeilad Julian Hodge ym Mhrifysgol Caerdydd
- 11-18 Chwefror yn y Senedd, Bae Caerdydd
- 18-25 Chwefror yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- 25 Chwefror – 4 Mawrth ar gampws Llandaf UWIC



Dean Lloyd, Swyddog y Gweithle Stonewall Cymru, yn gwneud cyfraniad at y llinell amser